Gweithwyr mudol- treth ac yswiriant gwladol

Pwy sy'n weithiwr mudol

Gweithiwr mudol yw rhywun sydd wedi dod o dramor i weithio yn y DU. Yn aml mae gweithwyr mudol yn gweithio mewn gwestai neu dai bwyta, prosesu bwyd, casglu ffrwythau a chasglu pysgod cregyn.

Efallai eich bod yn gweithio yma'n gyfreithlon, hynny yw, gyda chaniatâd awdurdodau mewnfudo'r DU (**Asiantaeth Ffiniau'r DU**) i weithio yn y DU, neu efallai eich bod yn gweithio yma yn anghyfreithlon, hynny yw, heb ganiatâd i weithio yma. Os ydych chi'n dod un o wledydd yr Undeb Ewropeaidd (UE), mae'n sicr bron y bydd gennych ganiatâd i weithio yn y DU, er, efallai y bydd yn rhaid i chi gofrestru ar y Cynllun Cofrestru Gweithwyr yn gyntaf. Gallai'r rheolau ynglŷn â'ch hawliau fod yn wahanol os ydych yn dod o Fwlgaria neu Rwmania.

Tra bod gennych ganiatâd i weithio yn y DU, fe fydd gennych rhai hawliau.

Os ydych chi'n gweithio yn y DU yn anghyfreithlon, neu heb fod yn siŵr a oes gennych ganiatâd i weithio yma, mae'n **rhaid** i chi gael cyngor cyn gynted ag sy'n bosibl oddi wrth ymgynghorydd arbenigol.

Treth a chyfraniadau yswiriant gwladol

Mae'n rhaid i bob gweithiwr bron yn y DU dalu treth a chyfraniadau yswiriant gwladol. Mae'r Llywodraeth yn defnyddio'r dreth i redeg y wlad. Mae yswiriant gwladol yn talu budd-daliadau pan fydd pobol yn ymddeol neu'n sâl neu'n ddi-waith. Didynnir treth a chyfraniadau yswiriant gwladol o'ch cyflog gan eich cyflogwr a'i anfon at Gyllid a Thollau EM (HMRC), adran treth y llywodraeth.

Mae cyfanswm y dreth a'r yswiriant gwladol y mae'n rhaid i chi ei dalu yn dibynnu ar faint rydych chi'n ei ennill.

Rhaid i'ch cyflogwr roi slip cyflog i chi sy'n dangos pa arian a ddidynnir o'ch cyflog ac ar gyfer beth y mae'r arian hwn. Ar ddiwedd y flwyddyn dreth, fe ddylech chi dderbyn ffurflen a elwir yn P60. Bydd hon yn rhoi manylion i chi o ba dreth ac yswiriant gwladol a dalwyd gennych yn ystod y flwyddyn. Mae'r dogfennau hyn yn bwysig iawn gan y bydd eu hangen arnoch i brofi eich bod wedi talu treth ac yswiriant gwladol.

Treth

Mae gan bawb yr hawl i ennill swm arbennig, cyn y didynnir unrhyw dreth. Gelwir hwn yn **lwfans personol**. Bydd HMRC yn anfon datganiad i chi o sut y penderfynir ar eich treth. Gelwir hwn yn **hysbysiad cod**.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Os ydych chi'n dechrau ar eich swydd gyntaf yn y DU, mwy na thebyg y byddwch chi'n dechrau talu **treth argyfwng** hyd nes y rhoddir cod treth gywir i chi. Golyga hyn y gallech dalu mwy o dreth i gychwyn. Gellir rhoi rhif yswiriant gwladol dros dro i chi hefyd.

Yswiriant Gwladol
Er mwyn talu cyfraniadau yswiriant gwladol, rhai i chi gael rhif yswiriant gwladol- sef, **RHYG.**

Er mwyn cael rhif yswiriant gwladol, rhai i chi gael cyfweliad. I drefnu cyfweliad fe allwch ffonio **rhif ffôn Rhif Yswiriant Gwladol National Employment** ar 0845 600 0643. Neu fe allwch ofyn am help oddi wrth y **Ganolfan Gwaith** ar 0800 055 6688.

Yn y cyfweliad bydd yn rhaid i chi brofi pwy ydych chi (eich **hunaniaeth**) a bod gyda chi'r hawl i weithio yn y DU. Ewch â'ch pasbort gyda chi ac unrhyw ddogfennau eraill sy'n profi pwy ydych chi. Gall y rhain gynnwys cerdyn adnabod cenedlaethol, tystysgrif geni neu drwydded gyrru. Rhaid i'r dogfennau fod yn wreiddiol. Er mwyn gwybod pa ddogfennau eraill y gallwch eu defnyddio cysylltwch â'r Ganolfan Gwaith neu edrychwch ar y tudalennau ar yswiriant gwladol o dan yr Adran Arian, Treth a Budd-daliadau ar wefan Directgov sef www.direct.gov.uk.

Os oes gennych swydd yn barod, fe ddylech fynd â'ch cytundeb cyflogaeth gyda chi neu lythyr oddi wrth eich cyflogwr. Os nad oes swydd gennych eto, fe allech chi fynd â manylion yr asiantaethau cyflogi rydych chi wedi cofrestru gyda nhw.

Os caniateir i chi weithio, fe ddylech chi wneud cais am rif yswiriant gwladol cyn gynted ag y byddwch yn cyrraedd yn y DU. Cyhyd â'ch bod wedi gwneud cais am rif, fe allwch ddechrau gweithio, hyd yn oes os na chawsoch un eto. Dywedwch wrth eich cyflogwr eich bod wedi gwneud cais am un.

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â thalu yswiriant gwladol i bobol sy'n dod i'r DU, ewch i wefan HMRC yn: www.hmrc.gov.uk

Ad-daliadau Treth

Os ydych chi'n talu treth tra eich bod yn y DU ond ddim yn gweithio am flwyddyn lawn, fe allech chi gael ad-daliad treth. Am fwy o wybodaeth ynglŷn â hawlio ad-daliad ar ôl gadael eich swydd, ewch i wefan HMRC yn: www.hmrc.gov.uk .

Yswiriant Gwladol os ewch chi nôl adre

Os ydych chi'n dod o wlad arall yn yr Undeb Ewropeaidd ac yn dychwelyd adre, gall y cyfraniadau yswiriant gwladol a dalwyd gennych yn y DU gyfrif tuag at fudd-

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

daliadau yn eich gwlad enedigol. Ni fydd hyn berthnasol os ydych chi'n dod o wlad y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd.

Beth os nad ydych yn talu treth ac yswiriant gwladol

Gall rhai cyflogwyr gynnig swydd i chi heb dalu treth neu yswiriant gwladol. Cyfeirir at hyn fel **arian mewn llaw** ac mae'n anghyfreithlon. Os yw'ch cyflogwyr yn torri'r gyfraith hon, mwy na thebyg eu bod yn torri deddfau cyflogaeth eraill yn ogystal, yn enwedig y rheiny sy'n amddiffyn gweithwyr, Bydd hi'n anodd iawn i gymryd camau i geisio cael eich hawliau cyfreithiol os nad ydych yn gweithio'n gyfreithlon. Dylech osgoi gymryd y math yma o swydd.

Beth os na fydd eich cyflogwr yn trosglwyddo eich treth a'ch yswiriant gwladol.

Mae rhai cyflogwyr yn didynnu arian oddi wrthych. Maen nhw'n dweud ei fod ar gyfer treth ac yswiriant gwladol ond dydyn nhw ddim yn ei drosglwyddo i HMRC. Fe ddylech wneud yn siŵr eich bod yn derbyn slip cyflog bob amser ynghyd â'r ffurflen P60 ar ddiwedd blwyddyn dreth. Mae'r dogfennau hyn yn profi eich bod wedi talu treth ac yswiriant gwladol. Os yw'ch cyflogwr wedi cadw'r arian, bydd HMRC yn eu hymchwilio. Sut bynnag, os nad oes gennych slipiau cyflog a'ch ffurflen P60, fe fydd yn anodd i chi brofi eich bod wedi talu treth ac yswiriant gwladol. Gall hyn effeithio'r budd-daliadau y gallwch eu cael a gall HMRC eich erlid am dreth sydd heb ei dalu sydd yn ddyledus yn eu tyb hwy.

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth

Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Taflenni'r HMRC

Cewch hyd i fwy o wybodaeth am ddod i weithio yn y DU ar wefan yr HMRC yn www.hmrc.gov.uk/migrantworkers, gan gynnwys taflenni mewn gwahanol ieithoedd.

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Gweithwyr mudol - hawliau yn y gwaith
- System Talu wrth Ennill (PAYE)
- Ad-daliadau Treth
- Yswiriant Gwladol

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith.

Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr, Cymru a'r Alban yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 5 Awst 2011, a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk - lle gallwch lawrlwytho'r copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr